Chwarae mentrus

Cyflwyniad

Mae rheoli risg yn rhan annatod o fywyd. Mae chwarae'n fentrus yn cynorthwyo plant ifanc i ddysgu o'u profiadau a datblygu'r sgìl pwysig hwn mewn bywyd.



Manteision chwarae mentrus

Ni ellir gorbwysleisio manteision cael y plant i chwarae'n fentrus. Mae'r cyfleoedd yn amrywio ond mae profiadau chwarae sy'n cynnwys elfen o risg, ac elfen o reoli risg felly hefyd, yn hybu iechyd cymdeithasol, emosiynol, meddyliol a chorfforol ymhlith plant ifanc. Drwy'r profiadau hyn, mae'r plant yn dysgu sut mae ymdrin â risg, sy'n un o sgiliau hanfodol bywyd! Maent yn datrys problemau, yn meddwl ar lefel uwch, yn dyfalbarhau, ac yn meithrin gwydnwch wrth iddynt gael hwyl a meithrin ymdeimlad o falchder ac o gyflawni.

Mae'r plant yn dysgu gwneud penderfyniadau hyderus oherwydd bod y gweithgaredd chwarae y maent wedi'i ddewis o ddiddordeb iddynt ac yn eu cymell, ac nid oherwydd eu bod yn ei wneud am fod oedolyn wedi dweud wrthynt. Mae rhywfaint o risg yn perthyn i bob man awyr agored sydd gan feithrinfa, a bydd rhai plant yn chwilio'n fwy dyfal nag eraill am gyfleoedd i'w herio eu hunain. Un o ffactorau sylfaenol hybu ffordd iach o reoli risg yw mabwysiadu dull cytbwys o weithredu.

Ffyrdd eraill y mae bod yn yr awyr agored yn hybu chwarae mentrus

- Datblygiad y system festibwlar a phropriodderbyniaeth – sy'n bwysig ar gyfer cydsymud a symud, cydbwysedd a sefydlogrwydd.
- Y gallu i addasu'r man dan sylw er mwyn hybu chwarae mentrus, e.e. ei addasu â deunyddiau rhydd.
- Effaith newid tymhorol ar adnoddau, e.e. dysgu ymdopi ag arwynebau pren llithrig.
- Ymwybyddiaeth o risgiau ym myd natur, e.e. adnabod danadl poethion.

Dull cytbwys o weithredu

Mae cynorthwyo plant i gael profiad o chwarae mentrus yn gofyn am ddull cytbwys o weithredu, sy'n canolbwyntio ar fanteision profiad yn ogystal â'r risg. Mae'n bwysig bod y tîm o staff yn gweithredu mewn modd cyson, a bod y plant yn deall y gwahaniaeth rhwng perygl a risg. Wrth ystyried manteision gweithgaredd i ddatblygiad plentyn gwelir nad yw rheoli risgiau'n dda, yng nghyswllt chwarae, bob amser yn golygu y dylid eu dileu'n gyfan gwbl. Dylai staff adolygu asesiadau risg presennol ar gyfer mannau awyr agored o'r safbwynt hwnnw.

Canllawiau cenedlaethol a hybu arfer da

"Nid dileu risg yw'r nod, ond pwyso a mesur y risgiau a'r manteision. Ni fydd unrhyw blentyn yn dysgu am risg os caiff ei lapio mewn gwlân cotwm." [Cyfieithiad] – Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae Ofsted yn Lloegr a'r Arolygiaeth Gofal yn yr Alban yn annog dull cytbwys o ymdrin â chwarae mentrus. At hynny, mae cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru, a'r polisi chwarae cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cyfeirio at bwysigrwydd dull cytbwys o weithredu.





Ystyried mannau ac ymarfer

Er mwyn darparu cyfleoedd i chwarae'n fentrus, sy'n wirioneddol ystyrlon ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn, mae'n bwysig nid yn unig ystyried beth y mae'r man awyr agored yn ei gynnig ond hefyd sut y mae ymarfer presennol yn hybu hynny. Beth yw eich dull o reoli risg, sut y sicrheir dull cyson o weithredu, a sut y caiff y plant eu cynnwys?

Chwarae mentrus

Gosod y sylfeini

Er bod yna amrywiadau rhwng meithrinfeydd o ran eu hymarfer a'u mannau awyr agored, mae yna rai prif themâu sy'n helpu i hybu cyfleoedd i chwarae'n fentrus



Wyth categori chwarae'n fentrus

Mae Ellen Sandseter, sy'n Athro mewn Addysg Plentyndod Cynnar, wedi adnabod wyth math o risg y bydd plant yn chwilio'n reddfol amdanynt:

Uchder mawr (e.e. dringo),
Cyflymder mawr (e.e. rhedeg, llithro, beicio),
Offer peryglus (e.e.meisoli eitemau go iawn megis morthwylion),
Elfennau peryglus (e.e. dŵr),
Chwarae sgarmes (e.e.esgus reslo),
Diflannu (e.e.chwarae cuddio),
Chwaraesy'n cynnwysgwrthdaro (e.e.neidio),
Chwarae dirprwyol (arsylwipobleraillyn ymwneud â risg, sy'n helpu i feithrin hyder y plentyn).

Wrth gwrs, gall canfyddiad un plentyn o chwarae mentrus fod yn wahanol iawn i ganfyddiad plentyn arall, sy'n amlygu pwysigrwydd creu cyfleoedd amrywiol yn yr awyr agored a'r angen am chwarae dirprwyol. Bydd safbwyntiau'r staff yn amrywio'n naturiol, ond mae rôl yr oedolyn o ran hwyluso a galluogi chwarae mentrus yn hanfodol, felly mae dull cyson a gytunwyd o weithredu'n allweddol.

Maint risg

Adnabod danadl poethion. Elfennau naturiol megis mwd, tywod a dŵr. Cadw cydbwysedd ar foncyff. Cyfleoedd i godi, symud, creu ac adeiladu â deunyddiau rhydd. Ymwneud â chynnau tân a gwneud gwaith coed yn yr awyr agored. Ceir llawer o wahanol fathau o gyfleoedd i gael profiad o chwarae mentrus. Gellid dadlau bod mwy o risg yn perthyn i rai ohonynt nag i eraill, ond mae'r cyfan yn bwysig o ran diwallu anghenion gwahanol blant ac o ran creu cyfleoedd i feithrin hyder a sgiliau.

Rôl yr oedolyn

Fel tîm o staff, mae'n bwysig deall eich methodoleg a'r rhesymau drosti! Beth yw'r egwyddorion sy'n sail i'ch dull gweithredu, a sut y caiff hynny ei gyfleu i'r plant? Bydd gan wahanol aelodau o staff farn wahanol, felly mae'n bwysig cytuno ar negeseuon cyson o'r dechrau'n deg. Hyrwyddwch agwedd gadarnhaol ac anogwch yr oedolion i gamu'n ôl ac arsylwi cyn ymyrryd (os oes angen). Defnyddiwch iaith sgaffaldio. Yn lle defnyddio ymadrodd megis 'bydd yn ofalus', canolbwyntiwch ar gwestiynau penagored sy'n annog y plentyn i feddwl, e.e. 'Wyt ti'n teimlo'n ddiogel?' a 'Beth fydd dy symudiad nesaf?'

Hwyluso chwarae mentrus

Mae cyfleoedd i ddatrys problemau a dyfalbarhau'n rhan annatod o'r profiad o chwarae'n fentrus. Nid yw helpu plant i ddringo rhywbeth na allant ei ddringo eu hunain yn golygu eich bod yn eu cynorthwyo; mae'n golygu'n hytrach eich bod yn gwneud y gweithgaredd drostynt. Gall canfyddiad oedolion o risg effeithio'n negyddol ar chwarae. Mae'n bwysig peidio â bychanu gallu plentyn, ac mae'n bwysig gadael iddo ddysgu o'i gamgymeriadau.





Cyfleu'r neges

Mae rhannu manteision chwarae mentrus, a'r dull a fabwysiedir i annog a rheoli profiadau mentrus ar gyfer plant, yn hanfodol er mwyn hybu dealltwriaeth. Mae defnyddio lluniau, adborth gan blant, arddangosfeydd, diwrnodau agored a chyfryngau cymdeithasol i gyd yn cynnig cyfleoedd i ledaenu'r neges.

Chwarae mentrus

Myfyrio am brofiadau

Pan fydd y staff a'r plant wedi mwynhau'r gweithgareddau awyr agored enghreifftiol, defnyddiwch eich profiadau i fyfyrio am y deilliant o ran ei lwyddiant ac o ran meysydd ar gyfer datblygu.



Gweithgareddau

Mae'r gweithgareddau enghreifftiol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r staff a'r plant gael profiad o chwarae'n fentrus a dysgu ohono. P'un a yw'r chwarae'n cynnwys cyflwyniad i offer go iawn neu'n golygu meithrin hyder i ddefnyddio deunyddiau rhydd, mae'r mathau hyn o weithgareddau'n cynnig cyfle i ymarferwyr sgwrsio â'r plant am risg ac am reoli risg, a hynny mewn cyd-destun byw sy'n helpu'r plant i greu'r cysylltiadau rhwng y gweithgaredd y maent yn ei fwynhau a'r modd y gallant reoli'r risgiau posibl dan sylw.

Wrth gwrs, mae chwarae'n ffordd hanfodol o alluogi'r plant i ddysgu rhoi prawf ar eu gallu a datblygu sgiliau ar gyfer bywyd. Defnyddiwch effaith y gweithgareddau ar y plant, a sut yr oeddent yn gwneud i'r staff deimlo, i lywio myfyrdodau eich grŵp wrth i chi symud ymlaen. Gwerthuswch y risgiau gwirioneddol fel tîm a chymharwch nhw â manteision y gweithgaredd i'r plant. Wrth reswm, mae canfyddiad un plentyn o chwarae'n fentrus yn wahanol i ganfyddiad plentyn arall. Sut y gall pawb elwa o'r manteision?

Enghreifftiau cyfeirio

"Mae arna i angen mannau sy'n fy annog i roi prawf ar fy ymdeimlad o risg. Mae arna i angen i chi sylwi pryd y mae gofyn i fi eich cael i ymyrryd i hybu fy chwarae mentrus a phryd y dylech gamu'n ôl." *[Cyfieithiad]*

(Realising the ambition: Being Me - National practice guidance for early years in Scotland. Education Scotland. Tudalen 29).

Man awyr agored – deunyddiau rhydd

Wrth fyfyrio am y gweithgareddau enghreifftiol, mae'n bwysig hefyd adolygu sut y mae'r man awyr agored yn hybu mynediad i chwarae mentrus. A oes yna gyfleoedd i'r plant ddewis deunyddiau rhydd drostynt eu hunain, ac a oes yna ddull cyson o dacluso ar ddiwedd y sesiwn? Yn dibynnu ar faint y man dan sylw, efallai y byddai'n werth ystyried parth pwrpasol i'w ddefnyddio. A oes amrywiaeth o ddeunyddiau ar gael (rhai naturiol ac artiffisial), sy'n cynnwys deunyddiau o wahanol feintiau, siapiau a phwysau er mwyn i blant feithrin hyder i drin adnoddau? Beth sy'n digwydd i eitemau sydd wedi torri, a phwy sy'n gwirio hynny?

Man awyr agored – defnyddio offer

Mae'r gweithgareddau enghreifftiol sy'n cynnwys offer go iawn (pliciwr llysiau a gordd rwber) yn darparu ffordd o gyflwyno i blant iau ffyrdd syml o ddefnyddio offer. Cytunwch ar gymhareb staff:plant a chlustnodwch fan ymlol ar gyfer y gweithgareddau hyn (pen draw llwybr yn hytrach na'i ran ganol). Bydd yr offer yn cael eu cadw'n ddiogel dan do pan na fyddant yn cael eu defnyddio, ond gydag amser gellir cynnwys y plant wrth ddatblygu'r man dan sylw er mwyn cynnwys deunyddiau ac adnoddau cysylltiedig ar gyfer chwarae rôl.





Symud ymlaen

Mae risgiau mewn bywyd yn anochel. Gyda chymorth ymarferwyr gwybodus, dull cyson o weithredu ac amrywiaeth o gyfleoedd yn y man awyr agored, gellir cynorthwyo'r plant i ddatblygu eu dealltwriaeth, eu gallu a'u hyder i groesawu'r sgìl hanfodol hwn ar gyfer bywyd.

Chwarae mentrus

Meddwl a darllen ymhellach

Bydd ymgysylltu ag ymchwil, ymarfer addysgegol a sefydliadau perthnasol o gymorth i ymarferwyr sydd am ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach.



Archwilio ymhellach

Nid yw'r cysyniad o chwarae mentrus, a'i werth cysylltiedig ar gyfer plant ifanc, yn rhywbeth newydd. Fodd bynnag, gall risg a her fod yn bwnc sy'n ennyn teimladau cryfion ymhlith staff a rhieni. Gall ymarferwyr hyddysg a gwybodus sy'n hyderus wrth weithredu helpu i liniaru'r pryderon hynny. Ceir amryw gyfleoedd i staff sydd am ehangu eu sylfaen wybodaeth a'u hymarfer addysgegol cysylltiedig, sy'n cynnwys mynediad i bapurau ymchwil a rhwydweithiau a sefydliadau proffesiynol, yn y DU ac yn rhyngwladol.

Drwy adeiladu ar ysylfaen gadarn ynghylch pam y mae'n bwysig, sut y gellir ei gyflawni, a sut y gellir cyflwyno ymarfer cyfredol a hyddysg sy'n cysylltu â'r awyr agored, dim ond effaith gadarnhaol ar y man awyr agored a'r plant sy'n chwarae yno all ddeillio o ymchwil bellach gan ymarferwyr sydd â diddordeb….a bydd hefyd yn hybu dealltwriaeth ymhlith eraill drwy drafodaethau proffesiynol.

Cymorth enghreifftiol

- Early Years Scotland www.earlyyearsscotland.org
- Early Years Alliance (Lloegr) www.eyalliance.org.uk
- Dysgu Drwy Dirweddau www.ltl.org.uk
- Ymddiriedolaeth Froebel www.Froebel.org.uk
- British Assoc. for Early Childhood Education www.early-education.org.uk
- International School Grounds Alliance www.internationalschoolgrounds.org

Children's Dynamic Risk Management – A comprehensive approach to children's risk willingness, risk assessment, and risk handling

Mae'r erthygl ymchwil hon a adolygwyd gan gymheiriaid yn archwilio'r prosesau emosiynol, gwybyddol a chorfforol sydd ar waith wrth i blant reoli risg, a'r elfennau sy'n rhan o hynny, sef parodrwydd i gymryd risg, y gallu i asesu risg, a'r gallu i ymdrin â risg. Cyhoeddwyd yn 2024.
www.tandfonline.com
Teipiwch 'Ellen Beate Hansen Sandseter and Rasmus Kleppe' yn y bar chwilio.
Mae Ellen Sandseter yn Athro mewn Addysg Plentyndod Cynnar.

Play Scotland

www.playscotland.org
Cliciwch ar y tab 'Schools and Childcare' ac yna ar y tab 'Managing Risk' i weld rhestr gynhwysfawr o wybodaeth ac adnoddau defnyddiol, o safbwynt yr Alban yn ogystal â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'r Fforwm Diogelwch Chwarae, ac i weld adolygiad helaeth o lenyddiaeth am risg a chwarae mewn cyd-destun cenedlaethol.





Cyhoeddiad perthnasol

No Fear – Growing up in a risk averse society. Cyhoeddwyd yn 2007.
Mae'r llyfr hwn a ysgrifennwyd gan Tim Gill, un o awduron blaenllaw'r DU am blentyndod, yn dadlau bod plentyndod yn cael ei danseilio gan dwf anhoffter o risg ym mhob agwedd ar fywydau plant. Mae ar gael i'w lawrlwytho'n rhad ac am ddim www.rethinkingchildhood.com

Chwarae mentrus

Y camau nesaf

Er mwyn sicrhau newid cynaliadwy, parhewch i ganolbwyntio ar y man dan sylw a'r ymarfer. Dylech gynnwys staff, plant a rhieni wrth ddatblygu a gweithredu syniadau.



Hyrwyddo cadarnhaol

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd dull cyson o weithredu ymhlith y staff, a'r modd y caiff hynny ei gyfleu i'r holl blant. Helpwch i ymgorffori'r dull o ymdrin â chwarae mentrus yn y feithrinfa drwy amrywiaeth o dechnegau rhannu gwybodaeth er mwyn hybu dealltwriaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys cael y plant i gyfrannu at greu asesiadau risg:budd cysylltiedig a chreu polisi ynghylch chwarae yn yr awyr agored, sy'n cyfeirio at werth cael plant i ddysgu sut mae rheoli risg, sy'n sôn am enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'r feithrinfa yn cyflawni hynny, sy'n cyfeirio at bolisi cenedlaethol, ac sy'n cynnwys neges uniongyrchol i rieni am eu cymorth (e.e. wrth ddarparu dillad addas). Mae technegau hyrwyddo cadarnhaol eraill yn cynnwys sicrhau bod y lluniau a ddefnyddir ar wefan y feithrinfa ac ar ei sianelau ar gyfryngau cymdeithasol yn cynnwys llawer o luniau o blant yn chwarae yn yr awyr agored, a bod dyfyniadau ac adborth cysylltiedig gan bawb dan sylw'n cael eu cynnwys.

Rhannu'r gwerth

- Trefnu digwyddiadau 'aros a chwarae' yn yr awyr agored i aelodau'r teulu.
- Anfon cais i rieni am unrhyw ddeunyddiau rhydd y gallant eu cyfrannu ar gyfer chwarae, gan gynnwys enghreifftiau o ddeunyddiau a pham y mae eu hangen. Dangos lluniau wedyn o blant yn defnyddio'r deunyddiau.
- Adnabod datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol i'r staff ac, os oes modd, trefnu ymweliad â meithrinfa arall i ddysgu o'i dull hi o weithredu.

Rheoli o ddydd i ddydd

Dylai cyfleoedd i chwarae'n fentrus gael eu darparu drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal â chanolbwyntio ar asesu risg:budd a defnyddio iaith sgaffaldio i helpu i hwyluso chwarae mentrus, dylai pob aelod o staff gytuno ar ddull dynamig, dyddiol o asesu risg. Mae'n bosibl y bydd y broses barhaus hon, a gynhelir mewn amser real, o adnabod peryglon a rheoli risgiau'n ymwneud â thywydd anffafriol, llai o staff ar ddiwrnod penodol, neu anghenion unigol plentyn wrth chwarae'n fentrus yn yr awyr agored. Mae'r dull hwn o weithredu hefyd yn hybu rhyngweithio cadarnhaol gan oedolion, sy'n eu hannog i gamu'n ôl ac arsylwi cyn ymyrryd.

Hybu ymarfer

Gellir lawrlwytho enghraifft o'r dull dynamig o asesu risg o wefan Dysgu Drwy Dirweddau. Gallwch gael gafael arni drwy glicio ar 'Resources' ac yna 'Risk Management Outdoors'. Darparwch gyfleusterau syml ar gyfer golchi dwylo yn yr awyr agored er mwyn hybu negeseuon cadarnhaol a chael y plant i symud rhwng gweithgareddau. Dylech gynnwys y plant mewn archwiliad achlysurol o'r man awyr agored, gan eu helpu i adnabod pethau sydd wedi newid a sut y gellir rheoli hynny (e.e. boncyffion pren sy'n pydru).





Y man awyr agored

Drwy arsylwi a thrafod, gweithiwch gyda'ch gilydd i adnabod bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer chwarae mentrus. Cofiwch nad yw'n golygu gwneud newidiadau costus; mae'n ymwneud yn hytrach â chreu profiadau dyddiol er mwyn helpu i hybu hyder a datblygiad y plant.